



action for
children
gweithredu
dros blant

Gormod, yn rhy gynnar.

Helpu'r bobl ifanc fwyaf agored i
niwed i greu cartrefi sefydlog
ar ôl gadael gofal.



Mae Action for Children-Gweithredu dros Blant yn elusen sy'n cefnogi ac yn codi llais dros y plant a'r bobl ifanc sydd wedi cael eu hesgeuluso fwyaf ac sydd fwyaf agored i niwed wrth galon cymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae gennym dros 100 o wasanaethau yng Nghymru felly rydym ar gael lle rydych yn byw ac yn gweithio.

Rydym yn helpu miloedd o blant a phobl ifanc i drawsnewid eu bywydau bob blwyddyn ac rydym wedi bod yn gwneud hyn ers dros 100 mlynedd. Mae'r plant a'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi yn wynebu'r anawsterau mwyaf sy'n gallu codi ym mywyd rhywun.

Drwy gefnogi Action for Children-Gweithredu dros Blant rydych yn rhoi gobaith i'r miloedd o blant a phobl ifanc agored i niwed sy'n cael cymorth gennym.

Cynnwys

Crynodeb.....	1
Canfyddiadau allweddol	3
Cyflwyniad	5
Ein ffocws	10
Canfyddiadau ymchwil.....	15
Casgliadau ac argymhellion	33

Crynodeb

Cyfnod byr yw plentyndod. Dyma sylfaen ein hunan-barch ac mae'n gosod y sylfaen ar gyfer y rhan fwyaf o'n bywyd fel oedolyn. Mae ar blant a phobl ifanc angen teimlo bod rhywun yn eu caru, bod sicrwydd ganddynt a'u bod yn ddiogel. Dylent wthio'r ffiniau gan wybod y bydd rhywun yno i'w dal pan fyddant yn gwneud camgymeriad. Dylent wybod bod pobl yn eu bywyd na fydd byth yn anobeithio yn eu cylch.

Pan fydd y wladwriaeth yn ymgymryd â rôl rhiant, dylai sicrhau bod plant yn derbyn y fagwraeth a'r sicrwydd na all eu teuluoedd eu cynnig, ni waeth pa mor gymhleth yw eu bywyd.

Yn anffodus, mae rhywbeth mawr yn mynd o'i le i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal. Yn rhy aml, y rhai sydd wedi profi'r cyfnodau cynnar mwyaf trawmatig, y plant a gafodd eu curo a'u gadael i'w tranc neu eu llusgo i fyd troseddu, yw'r union rai y mae'r gwahanol agweddau ar eu rhiant corfforaethol yn eu methu.

Boed angen cartref diogel neu ofal iechyd meddwl teilwng arnynt, neu ddim ond unigolyn cyson y

gallant ddibynnu arno, mae'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn disgyn drwy'r bylchau yn ein systemau cymorth cymhleth, sydd dan ormod o bwysau. Yn aml, maent yn bwrw'r bai arnynt eu hunain, ar gam.

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn pam mae hyn yn digwydd. Sut mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn mynd yn ddigartref? Pam nad yw amcanion da'r system gofal yn dwyn ffrwyth? Pam nad yw'r bobl fwyaf agored i niwed yn elwa o ddiwygiadau sydd i'w croesawu? A, pham mae'r rhai sydd angen y mwyaf o gefnogaeth yn symud i oedolaeth ifanc, di-drefn, hebddo?

Mae'r sefyllfa yn argyfyngus. Mae costau'n cynyddu ac mae pwysau ar wasanaethau lleol yn parhau. Nid yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn enwedig yn achos y plant hŷn mwyaf agored i niwed sydd mewn gofal neu ar ymylon gofal. Gyda phob blwyddyn sy'n mynd heibio, mae rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal yn diflannu ac yn ailymddangos dim ond pan fydd eu sefyllfa wedi cyrraedd pwynt argyfwng.

Mae'n bryd rhoi ffocws o'r newid i'n gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal. Mae gan y wlad ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni ei chyfrifoldebau tuag at blant yn ei gofal. Mae ganddi ddyletswydd foesol i ymddwyn nid cymaint fel system, ond mwy fel rhiant sy'n poeni am yr hyn sy'n digwydd i'w blentyn wrth i'r plentyn gymryd y camau petrusgar cyntaf tuag at oedolaeth.

Rydym yn galw ar i bob agwedd ar y rhiant corfforaethol - o Lywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol i weithwyr proffesiynol mewn asiantaethau lleol – ail-archwilio eu rôl mewn rhianta da. Pa bynnag agwedd y mae pobl ifanc yn delio ag ef, dylai gynnig cariad, sicrwydd a diogelwch.

Fel y cawsom ein hatgoffa gan un person ifanc:

“Dim ond un siawns ar blentyndod gewch chi, a hebdo, gallwch chi ddim cyrraedd eich potensial.”

Canfyddiadau allweddol

1. Y bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy’n dioddef y lefelau uchaf o ansefydlogrwydd ac ansicrwydd.

Mae'r rhesymau pam y bu'n rhaid iddynt fynd i ofal, y system ofal ei hun a'r diffyg cymorth cywir ar ôl gadael gofal oll yn cyfrannu. Mae'r tryblith hwn yn parhau i oedolaeth, gan arwain at ddigartrefedd a'r sefyllfa lleiaf sefydlog o ran cartref. Nid yw trefniadau presennol o ran llety yn ddigon hyblyg ac nid ydynt yn darparu digon o gefnogaeth, yn enwedig i'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn gofal maeth. Dywedodd pobl ifanc wrthym na ddylai'r rhiant corfforaethol da roi'r ffidil yn y to, yn enwedig ar yr adeg pan fydd bywydau pobl ifanc yn fwyaf cymhleth a heriol. Dymunant weld un fframwaith hyblyg sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion nhw yn hytrach nag ar anghenion y system.

2. Dylai lles emosiynol fod yn fan cychwyn i ni. Hebdo, nid yw cymorth ymarferol yn ddigon i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed.

Roedd iechyd emosiynol gwael yn treiddio drwy hanesion pobl ifanc. Mae cymorth hanfodol

yn diflannu'n gyflym ar ôl i'r rhai ag anghenion cymhleth ac anableddau adael gofal. Nid oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i iechyd emosiynol a meddyliol plant mewn gofal, ac mae angen i Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu rôl mewn rhianta corfforaethol. Mae angen lleoliadau gofal therapiwtig ar y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n mynd ati i ddatblygu lles emosiynol, mynd i'r afael â thrawma seicolegol a'u helpu i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a gwydn.

3. Mae ar bobl ifanc angen cydberthnasau hirhoedlog y gallant ymddiried ynddynt, i'w helpu i fyw'n annibynnol ac i neidio'n ôl pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mae pobl ifanc yn gofyn yn gyson am barhad a chymorth gan oedolyn y maent yn ymddiried ynddo/ynddi ar ôl gadael gofal. Mae hyn yn eu helpu i adeiladu cydnerthedd, rheoli eu tenantiaethau ac atal argyfyngau o ran eu cartref. Nid oes digon o arian a chymorth ar gyfer trefniadau i bobl ifanc ag anghenion mwy

cymhleth. Mae angen i drefniadau Pan fydda’ i’n Barod fod o fewn cyrraedd y bobl ifanc fwyaf agored i niwed, a gweithio iddynt.

4. Gall dychwelyd adref neu gadw cysylltiad â theulu biolegol fod yn gymhleth.

Mae cyfran fawr o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn dychwelyd i gartref y teulu neu’n ceisio cysylltiad ag aelodau’r teulu. Mae ailsefydlu cysylltiad â’u teulu genedigol yn gallu bod yn amser arbennig o beryglus – yn emosiynol ac yn gorfforol. Yn rhy aml, mae hyn yn digwydd heb gymorth. Yn benodol, nid oes digon o help i bobl ifanc na’u teuluoedd genedigol reoli perthnasoedd negyddol a sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus.

5. Mae peth cyfrifoldeb ar bob rhan o’r wladwriaeth a’i gwasanaethau i ymddwyn fel rhiant corfforaethol da ond, yn rhy aml, nid yw gwasanaethau’n cael eu dylunio’n benodol ar gyfer pobl ifanc agored i niwed sy’n gadael gofal ac mae hynny’n creu rhagor o ansefydlogrwydd.

Yn achos y bobl ifanc y gwnaethom ni siarad â nhw, roedd lleoliadau anniogel a diffyg dewis o ran llety’n gwneud yr her o reoli tenantiaethau’n fwy anodd. Mae angen “cyfleoedd diddiwedd” ar rai o’r bobl ifanc fwyaf agored i niwed i atal cylchoedd o ddyled a chael eu troi allan o’u cartref.

Cyflwynir ein hargymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cyflwyniad

Beth yw’r broblem?

Mae’r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu gorfodi i dyfu i fyny’n rhy gyflym. Mae gormod o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn byw mewn cartrefi anniogel, lle maent yn teimlo’n unig ac yn ofnus. Maent yn symud yn aml ac mae llawer ohonynt yn dioddef cyfnodau’n ddigartref.

Mae’r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn parhau i ymdopi ag effaith barhaol plentyndod trawmatig. Gallant ddioddef o iselder a phryder, yn ogystal â delio â heriau byw ar eu pen eu hunain am y tro cyntaf.

Dywedant wrthym yn rhy aml eu bod yn teimlo’u bod ar eu pen eu hunain gyda’r anawsterau hyn – hyd yn oed pan fyddant wedi cael help gyda’r agweddau ymarferol ar y pontio a dod o hyd i rywle i fyw.

Nid yw gadael gofal yr un peth â gadael cartref. Yn anaml iawn y mae gan bobl ifanc sydd wedi bod

mewn gofal y sefydlogrwydd neu’r rhwydweithiau cymorth y mae’r rhan fwyaf o bobl ifanc yn eu harddegau yn eu cymryd yn ganiataol. Heb y rhwyd diogelwch honno, gall pob penderfyniad gwael arwain at ganlyniadau difrifol ac atal y bobl ifanc fwyaf agored i niwed rhag cyflawni eu potensial.

Mae’r rhesymau pam y bu’n rhaid iddynt fynd i ofal yn parhau’n bresennol yn eu bywyd. Mae emosiynau a pherthnasoedd anodd yn parhau ac, fel pob un ohonom, mae angen help arnynt i ymdopi â nhw.

Sefydlwyd ers amser fod pobl ifanc sy’n gadael gofal yn tueddu i gael profiadau gwael o ran cartref. Gwnaed galwadau mynych am newidiadau i bolisi ac ymarfer, ond mae deilliannau pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn parhau’n gyson wael.


Er gwaethaf ymdrechion ar y cyd gan lywodraeth leol a chenedlaethol, nid yw amcanion da wedi arwain at ganlyniadau da. Mae holl swm a sylwedd yr arweiniad a'r amrywiaeth o wasanaethau yn dyst i ymdrechion gwleidyddion a gweithwyr proffesiynol i greu system sy'n gweithio.

Rhywle, collwyd y ffocws ar y deilliannau gorau i bobl ifanc. Mae'r bylchau rhwng gwasanaethau a systemau wedi dod yn bwyntiau o argyfwng posibl i ymadawyr gofal sy'n agored i niwed. Mae problemau sylfaenol yn parhau sy'n golygu nad

ydnyt yn barod am fywyd oedolyn ac nad ydynt yn cael cymorth yn y ffyrdd y dywedant fod angen iddynt gael cymorth.

Mae ardaloedd lleol yn parhau i ymdrin â chostau gofal a chostau uwch fyth gofal gwael. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn dioddef lefelau anghymesur o ddigartrefedd, diweithdra, iechyd gwael a throseddau. Mae'r effaith bersonol, gymdeithasol ac emosiynol yn enfawr ac, er mai'r unigolyn sy'n ei theimlo waethaf, mae'n effeithio ar bob un ohonom yn y pen draw.

FFIGUR 1: GORFOD TYFU I FYN YN RHY GYNNAR



Cyd-destun polisi: ble'r ydym ni nawr?

Mae rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal yn mynd yn ddigartref ac yn cychwyn ar lwybrau tymhestlog i oedolaeth. Mae'n glir nad yw'r system yn gweithio a bod angen edrych ar y rhwystrau a'r cyfleoedd am newid ar frys.

Cefnogi pontio sefydlog

Mae'r fframwaith cyfreithiol a'r fframwaith polisi presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal yng Nghymru'n deillio'n bennaf o Ddeddf Plant 1989 a Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000. Mae'r cymorth a gynigir ar hyn o bryd i ymadawyr gofal yng Nghymru yn cynnwys: cynllunio llwybr strwythuredig o ofal i annibyniaeth; yr hawl i gael cynghorydd personol; a chymorth i ddod o hyd i lety addas a chael addysg a hyfforddiant. Yn achos ymadawyr gofal sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth ychwanegol, rhaid i awdurdod lleol cyfrifol gynorthwyo'r bobl ifanc tan eu bod nhw'n 21 oed, i'r graddau ag y bo lles yr unigolyn yn galw am hyn. Fodd bynnag, mae'r hyn y gellir ei hawlio yn gysylltiedig â gadael gofal yn seiliedig ar oedran, addysg a statws cyflogaeth, yn hytrach nag ar angen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod darparu gofal am gyfnod hirach a sefydlogrwydd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ymadawyr gofal. Mae'r cynllun Pan fydda' i'n Barod, sy'n caniatáu i bobl ifanc aros gyda

gofalwyr maeth tan eu bod nhw'n 21 oed, wedi cael ei roi ar bawf am y tro cyntaf yn ystod 2013-14 a chaiff ei weithredu ar draws Cymru yn ystod 2015. O 2016 ymlaen, bydd hawl gan bobl ifanc yng Nghymru aros mewn gofal maeth tan eu bod nhw'n 21 oed.⁴ Bu Gweithredu dros Blant - Action for Children yn eiriol o blaid y newid hwn trwy ein hymgyrch Chance to Stay - Cyfle i Aros, a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl ifanc sy'n dymuno aros mewn cartrefi maeth sefydlog, teuluol.

Ni fydd pob person ifanc sy'n gadael gofal yn elwa o'r diwygiadau hyn ac mae perygl y bydd rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed, sydd heb gael taith sefydlog mewn gofal, yn cael eu heithrio. Mae angen gwneud rhagor i nodi'r ffyrdd gorau o'i gwneud hi'n bosibl i bawb sy'n gadael gofal aros mewn llety sefydlog, gan gynnwys gofal preswyl, neu symud ymlaen i gartref arall mewn ffordd hyblyg, gyda chymorth. I gefnogi'r glasod sydd mewn gofal ac ar ymylon gofal yn effeithiol, mae angen buddsoddi adnoddau'n fwy effeithiol ac mae angen dulliau ymyrraeth gynnar i atal argyfyngau yn y dyfodol.

Rhannu'r cyfrifoldeb am rai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed

Mae fframwaith cyfreithiol amlasiantaeth ar gyfer rhannu'r cyfrifoldeb ymhlith cyrff cyhoeddus yn bodoli sy'n cydnabod bod llawer o bobl ifanc yn parhau'n agored i niwed y tu hwnt i 18 oed. O dan y gyfraith bresennol yn ymwneud â thai, ystyrir bod ymadawyr gofal rhwng 18 a 21 oed yn grŵp sy'n

cael blaenoriaeth am gymorth tai yng Nghymru.^{5,6} Hefyd, yn ôl Cod Ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), mae'n ofynnol bod darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn cydlynu â gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu i blant sy'n derbyn gofal.⁷ Fodd bynnag, mae'n hysbys bod deilliannau gwael yn parhau i ymadawyr gofal.

Ymadawyr gofal sydd angen cymorth ychwanegol

- Mae'r gyfraith yn diffinio **bod pobl ifanc 16/17 oed** naill ai 'yn gymwys', sy'n golygu y dylent gael y cymorth a ddaw gyda derbyn gofal, neu 'yn berthnasol', sy'n golygu nad ydynt mwyach mewn gofal ond mae'n rhaid i'r awdurdod lleol: gadw mewn cysylltiad; darparu llety a chynhaliaeth addas; darparu asesiadau o anghenion parhaus a chynllunio llwybr; a helpu gydag addysg a gwaith. Dylai person ifanc 16 neu 17 oed digartref gael llety a derbyn gofal o dan adran 20 Deddf Plant 1989. Mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu hailadrodd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Dylai **pobl ifanc ag anabledd dysgu neu anabledd corfforol** gael eu cynnwys mewn cynllunio cynnar ar gyfer cymorth i fodloni eu hanghenion ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed. Mae dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn golygu bod hawl gan unrhyw berson ifanc sy'n debygol o fod ag anghenion gofal a chymorth gael asesiad. Ni ddylai fod

'dibyn' mewn cymorth pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd 18 oed, oherwydd mae'n rhaid i gymorth gan wasanaethau plant barhau hyd nes bod y gwasanaethau oedolion yn gallu cymryd drosodd.

- Dylai **pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl** barhau i dderbyn cyngor a gwasanaethau iechyd. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau pontio effeithiol rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2012-16.⁸ Fe wnaeth yr Ymchwiliad Diweddar i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc mewn gofal sydd wedi methu cael y cymorth iechyd meddwl y mae ei angen arnynt.⁹
- Mae **ceiswyr lloches ifanc ac ymadawyr gofal** yn y system cyfiawnder ieuenctid yn gymwys i gael cymorth at gynllunio llwybr, ond mae'r broses yn fwy cymhleth ac mae'n gofyn am gydweithio penodol rhwng asiantaethau pan fydd statws mewnfudo yn newid, neu pan fydd person ifanc yn y ddalfa neu'n gadael y ddalfa.

- **Atal digartrefedd.** Gall ymadawyr gofal wneud cais digartrefedd i'w hawdurdod lleol a dylid ystyried bod ganddynt 'angen â blaenoriaeth' os ydynt yn 21 oed neu'n iau ac, os ydynt dros 21 oed, gallant barhau i gael cymorth os ydynt yn agored i niwed o ganlyniad i fod mewn gofal. Cyn belled na cheir y person ifanc yn 'ddigartref yn fwriadol', dylid darparu llety o dan y ddyletswydd ddigartrefedd.

Cyd-destun polisi: i ble'r ydym ni'n mynd?

Mae'r fframwaith polisi a chyfreithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru wrthi'n cael ei adnewyddu. Yn gynt eleni, cafodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei phasio a chaiff ei gweithredu yn 2016. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys dyletswydd glir i awdurdodau lleol atal digartrefedd a thalu sylw arbennig i anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae'r deddfau hyn yn gonglfaen ymagwedd o'r newydd at gefnogi ymadawyr gofal yng Nghymru, a'r hyn sy'n eu gyrru yw cyflawni deilliannau cadarnhaol a chefnogi pobl er mwyn sicrhau lles gwell.¹⁰ Mae hyn yn gyfle pwysig i adeiladu ar y darpariaethau deddfwriaethol newydd a datblygu fframwaith polisi ac ymarfer wedi'i adnewyddu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau plant a phobl ifanc.

Ein ffocws

Yr ymadawyr gofal mwyaf agored i niwed

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brofiadau'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal.

FFIGUR 2: YMADAWYR GOFAL MWYAF AGORED I NIWED YN SGIL CARTREF GWael

- Pobl ifanc sy'n gadael gofal yn 16 ac yn 17 oed
- Y rhai sydd â phroblemau cymdeithasol, emosiynol, iechyd meddwl ac ymddygiadol
- Troseddwyr, gan gynnwys y rhai sydd â hanes o drais a chamddefnyddio sylweddau
- Pobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd o ofal
- Pobl ifanc anabl nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer gwasanaethau oedolion
- Ceiswyr lloches ifanc
- Pobl ifanc a ddioddefodd symudiadau negyddol niferus mewn gofal ac ar ôl gadael gofal

Mae ymchwil yn dangos pa bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal sy'n fwy tebygol o ddioddef anawsterau gyda'u llety pan fyddant yn gadael gofal.^{11,12} Ond, mae risg arbennig i rai grwpiau. Mae gadael gofal yn 16 neu'n 17 oed, gydag anghenion mwy cymhleth fel anabledd, problem iechyd meddwl neu broblem ymddygiadol, yn gallu effeithio nid yn unig ar allu pobl ifanc i ymdopi â byw'n annibynnol yn llwyddiannus, ond hefyd effeithio ar sicrwydd eu cartref yn y tymor hir.

Serch hyn, mae diffyg dealltwriaeth ynghylch sut i wella profiadau rhai o'r ymadawyr gofal mwyaf agored i niwed er mwyn atal deilliannau gwael wedi'u hymwreiddio o ran cartref.

Mae'r holl bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn mwy o berygl o ddioddef digartrefedd. Nodwyd rhai ffyrdd o'u cynorthwyo pan fyddant yn mynd i drafferthion. Fodd bynnag, mae'n anoddach helpu'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal ac mae llai o wybodaeth am yr hyn a fydd yn helpu i'w hatal rhag dioddef ansicrwydd o ran cartref yn ystod eu bywyd.¹³

Mae gan bobl ifanc sy'n fwyaf tebygol o ddioddef cartrefi gwael yn y tymor hir lawer o broblemau oherwydd yr hyn a ddigwyddodd iddynt cyn eu bod yn mynd i ofal. Mae profiad gwael mewn gofal yn gallu gwaethygu hyn. O ganlyniad, maen nhw'n fwy tebygol o fynd ymlaen i ddioddef y problemau mwyaf difrifol a drud yn ddiweddarach yn eu bywyd, gan gynnwys diweithdra, iechyd gwael, camddefnyddio sylweddau a charchar.

Mae angen brys i gryfhau ein dealltwriaeth o'r heriau penodol i'r ymadawyr gofal mwyaf agored i niwed a pha gymorth cynnar a fydd nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth iddynt, ond a fydd hefyd yn atal costau diangen, cynyddol i gymdeithas.

Cymorth cynnar – Yr hyn rydym ni'n bwrw golwg arno a pham

Mae Gweithredu dros Blant - Action for Children yn ymrwmo i gefnogi plant a phobl ifanc yn gynnar i atal argyfwng ac i atal problemau rhag gwaethygu. Trwy ganolbwyntio ar hanesion llety rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sydd wedi bod mewn gofal, mae'r adroddiad hwn yn archwilio pa mor bwysig yw hi i nodi problemau'n gynnar a'r gwahaniaeth y gallai cymorth ataliol ei wneud. Mae'n archwilio:

- Y rhwystrau rhag sefydlogrwydd, beth sy'n cynyddu'r perygl o ddigartrefedd a'r deilliannau gwael o ran cartref i rai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sydd wedi bod mewn gofal
- Y ffactorau allweddol sy'n helpu i alluogi llwybrau sefydlog o ran llety ac atal ansefydlogrwydd i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed

Os yw'n bosibl nodi pa bobl ifanc sy'n fwy tebygol o fod arnynt angen help ychwanegol neu fod ag anghenion mwy cymhleth pan fyddant yn gadael gofal, credwn ei bod hi'n rhesymol disgwyl i wasanaethau a chymorth gael eu cynllunio a'u trefnu yn unol â hynny.

Rydym yn archwilio goblygiadau gofal gwell i'r plant hŷn fwyaf agored i niwed, yn bwrw golwg ar opsiynau o ran llety a'r opsiynau am ymestyn cymorth i oedolaeth ifanc. Rydym yn gofyn nifer o gwestiynau allweddol a meysydd y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt, ynghyd ag awgrymu argymhellion am newid.

Methodoleg

Roedd yr ymchwil yn cynnwys 28 o ymadawyr gofal o Gymru a Lloegr, yn byw mewn cymunedau trefol a gwledig. Cynhaliwyd cyfweiliadau â chyfanswm o 31 o bobl ifanc, oherwydd cafodd tri o bobl ifanc ychwanegol ar ymylon gofal eu cynnwys. Roedd y bobl ifanc yn cynrychioli'r grwpiau mewn perygl o ddeilliannau gwael o ran cartref, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ag elfen agored i niwed benodol mewn mwy nag un maes. Gweler ffigur dau ac atodiad un i gael dadansoddiad manwl.

Ceisiom roi cyd-destun i brofiadau pobl ifanc trwy siarad â gweithwyr cymorth a oedd yn gallu cynnig cipolwg ar lwybrau llety pobl ifanc eraill mewn sefyllfa debyg. Fe wnaeth deuddeg ymarferwr a/ neu ofalwr, a oedd yn adnabod 17 o'r bobl ifanc rhyngddynt, gymryd rhan yn yr ymchwil.

Roedd heriau penodol ynghlwm wrth ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, ond sydd fwyaf ar y cyrion. Roedd llawer o'r bobl ifanc hyn heb gysylltiad ag awdurdodau ac yn dod i gysylltiad â gwasanaethau dim ond pan oeddent mewn argyfwng. Aethpwyd i'r afael â hyn trwy dargedu amrywiaeth o wasanaethau a chydweithio ag ymarferwyr unigol a oedd mewn cysylltiad â'r bobl ifanc hyn. Roedd pawb a wnaeth gymryd rhan yn derbyn cymorth gan y mathau canlynol o wasanaethau, gan gynnwys: Tai â Chymorth a chymorth Digartrefedd, Cymorth Ieuenctid Targedig, Prosiectau Ymyriadau Teuluol, Cynlluniau Ymweld yn Annibynnol, Gwasanaethau Gadael Gofal, a Maethu Dwys, gan gynnwys darpariaeth yn lle'r dalfa.

Yn ogystal, gwnaed adolygiad o lenyddiaeth a data ynghylch cyrchfannau llety a deilliannau tai ymadawyr gofal, ynghyd â'u profiad o ddigartrefedd. Mae'r astudiaeth hon yn adeiladu ar grwpiau ffocws gyda 37 o ymadawyr gofal, a wnaed gyda gwasanaethau Gweithredu dros Blant yn 2013, pan nododd ymadawyr gofal ifanc mai materion llety oedd un o'u priif bryderon.

Daw'r holl ddyfyniadau yn yr adroddiad hwn oddi wrth bobl ifanc ac ymarferwyr yng Nghymru.

Graddfa'r mater: Beth ydym ni'n ei wybod am ddeilliannau tai ymadawyr gofal?

FFIGUR 3: YMADAWYR GOFAL A PHERYGL DIGARTREFEDD

	- Nid oes data cenedlaethol ar gael am union nifer y rhai sy'n dioddef digartrefedd rywbryd ar ôl gadael gofal
	- Ond, mae ymchwil yn dangos bod tuag un o bob tri yn dioddef digartrefedd rywbryd rhwng chwech a 24 mis ar ôl gadael gofal ¹⁴
	- Mae digartrefedd yn 'gudd' ¹⁵

FFIGUR 4: DIGARTREFEDD CUDD A DEILLIANNAU TAI

	NID YW saith y cant o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal yng Nghymru MEWN CYSYLLTIAD â'u hawdurdod lleol ¹⁶ Nid ydym yn gwybod ble maen nhw'n byw	Deilliannau o ran tai ?
	Nid oes data ar gael am y math o lety sy'n gyrchfan i YMADAWYR GOFAL 16 AC 17 OED, sef rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed	Deilliannau o ran tai ?

Canfyddiadau ymchwil

1. Y bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n dioddef y lefelau uchaf o ansefydlogrwydd ac ansicrwydd.

Rhwystyrhag sefydlogrwydd o ran llety – Ansefydlogrwydd mewn gofal

Roedd mwyafrif y bobl ifanc y siaradom â nhw wedi dioddef lefelau uchel o ansefydlogrwydd pan oeddent mewn gofal.

- Roedd pedwar ar ddeg o bobl ifanc wedi cael tri lleoliad neu fwy
- Roedd saith o bobl ifanc wedi cael pum lleoliad neu fwy
- Roedd tri o bobl ifanc wedi cael deg lleoliad neu fwy (12, 24 a 26 lleoliad)

Roedd y symudiadau mewn gofal wedi digwydd yn bennaf oherwydd tarfu ar y lleoliad, ond

weithiau roeddent o ganlyniad i'r ffaith bod dychwelyd i'r cartref teuluol wedi methu.

Roedd bywydau'r bobl hyn yn cynnwys ysbeidiau'n symud rhwng gofaluwr maeth, cartrefi preswyl, unedau diogel, cysgu ar soffâ ffrindiau a bod ar ddihun drwy'r nos yn cerdded y stryd. Cyfeiriwyd yn aml at ddefnyddio llety Gwely a Brecwast. Trodd un person ifanc at fyw mewn pabell ac fe wnaeth un arall lochesu yng nghefn car.

Yn ogystal, siaradodd pobl ifanc yn aml am y diffyg parhad yn eu gofal o ganlyniad i newid mynych mewn gweithiwr cymdeithasol. Cafodd buddion parhad a sefydlogrwydd 'i sicrhau dull mwy graddol a di-dor o gynllunio'r pontio i oedolaeth ar gyfer plant agored i niwed' ei wadu i'r bobl ifanc hyn.¹⁷

Mae sawl rheswm am lety anaddas ar ôl gadael gofal a symudiadau aml, gan gynnwys:

- Lleoliadau dros dro oherwydd bod tenantiaeth wedi dod i ben neu roedd yn anaddas
- Cael eu symud ymlaen o lety rhannol annibynnol, sy'n brin¹⁸

Darganfuwyd bod lefel yr ansefydlogrwydd a gafwyd yn amrywio rhwng ardaloedd lleol oherwydd bod yr opsiynau llety digonol yn amrywio.¹⁹ Ond, nid yw'r graddau y mae ymadawyr gofal yn profi ansefydlogrwydd mewn gwahanol fathau o lety, gan gynnwys dychwelyd i'r teulu rhwng opsiynau llety a thai eraill, yn hysbys.

Rhwystyrhag sefydlogrwydd – Cyrraedd gofal yn yr arddegau

Mae ymchwil yn dangos bod ansefydlogrwydd mewn gofal yn gysylltiedig ag oed a'r rhesymau pam y mae pobl ifanc wedi cyrraedd gofal. Nid yw'r setiau data yng Nghymru'n nodi'r oed pan mae plant a phobl ifanc yn cyrraedd gofal, na nifer cronus y lleoliadau a gawsant yn ystod eu cyfnod mewn gofal. Fodd bynnag, mae data Lloegr yn dangos mai'r glasoed sy'n cyrraedd gofal yw'r mwyaf tebygol o fod wedi cael lleoliadau lluosog a'r profiadau lleiaf sefydlog o ofal, yn rhannol oherwydd cysylltiad â'u teulu ac ymddygiad heriol.²⁰

Bydd setiau data gwell sy'n olrhain siwrneiau plant unigol sy'n derbyn gofal drwy ofal yn fwy effeithiol yn ofyniad hanfodol mewn system ofal sy'n gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae ein hymchwyl ni'n canolbwyntio ar y bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i brofi tai gwael a digartrefedd. Daeth dros draean (11/28) y bobl ifanc y buom ni'n eu holi i ofal yn y glasoed: daeth pedwar o bobl ifanc i ofal yn 14 oed, pum yn 15 oed a dau yn 16 oed. Roedd sawl person ifanc wedi dod i ofal yn eu harddegau ar ôl bod ar ymylon gofal am sawl blwyddyn. Canfuwyd fod mynd i ofal yn ystod blynyddoedd yr arddegau'n effeithio ar eu gallu i setlo yn eu lleoliadau ac i elwa ar gymorth therapiwtig tymor hir.

Roedd plant ar eu pen eu hunain hefyd yn cyrraedd y system ofal yn hwyr ac roeddent yn fwy tebygol o orfod ymdopi mewn llety yn hytrach na chael lleoliad mewn cartref gofal neu â theulu maeth.

Stori Adam

Fe wnes i fynd i ofal maeth pan oeddwn i'n ddeg oed. Ces i bum gofalwr maeth. Es i i fyw gyda fy mam a'm chwaer yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Nid yw'n braf gorfod symud drwy'r amser, ond rydych chi'n dod i arfer â hynny.

Doedden nhw byth wedi trefnu i fi fynd i weld fy hen ffrindiau. Roedd tipyn o'r gofalwyr maeth roeddwn i'n byw gyda nhw yn byw yng nghanol unman, felly fe wnes i ddim traferthu gwneud ffrindiau fan hynny. Roeddwn i'n arfer peidio â mynd i'r ysgol a mynd i'r dre; byddwn i'n gweld fy hen ffrindiau wedyn.

Roeddwn i wedi cael llond bol pan oeddwn i'n 16 oed, doeddwn i ddim eisiau bod mewn gofal mwyach. Fe wnes i adael a mynd i aros gyda ffrind ar ei sofffa. Daeth y gwasanaethau cymdeithasol i wybod mod i wedi gadael a fy rhoi i mewn gwesty. Roeddwn i'n teimlo'n isel ac roedd fy mhen i ym mhob man. Roedd hi'n ystafell bitw ac mor ddiflas. Dim ond noson arhosais i. Es i nôl at fy ffrind. Ar ôl hynny, es i i aros gyda fy chwaer a'm brawd yng nghyfraith; roedd methu gweld fy neiaint wedi bod yn anodd iawn ac roeddwn i eisiau bod o'u cwrmpas nhw a fy rheulu.

Cynigiodd y gwasanaethau cymdeithasol le i mi mewn tai â chymorth gyda phobl ifanc eraill, ond doeddwn i ddim eisiau hwnnw. Mae'n teimlo fel tasen nhw'n ceisio rheoli fy mywyd o hyd, a doeddwn i ddim eisiau bod mewn lle arall fel hynny.

Yr unig gymorth rwy'n ei gael nawr yw gan Susan, a oedd yn arfer bod yn ofalwr maeth i mi. Ffoniais i hi pan daflodd fy mrawd yng nghyfraith i o'r tŷ ac fe ddaeth hi i 'nghasglu i. Pan roedd yn rhaid i mi adael fan hynny, roeddwn i eisiau mynd yn ôl i ofal maeth ond dywedwyd wrtha' i ei bod hi'n rhy hwyr ac roeddwn i'n methu mynd nôl. Roeddwn i'n 17 oed.

Rwy'n talu i fyw fan hyn gyda Susan o'm budd-daliadau. Rwy wedi cael cosb gan y ganolfan waith ar hyn o bryd. Maen nhw wedi torri fy mudd-dal tai gan na wnes i fynd i gyfarfod cynghorydd personol, ond doeddwn i ddim yn gwybod amdano gan na chefais i'r llythyr.


Dwi'm yn teimlo mod i wedi cael llawer o gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol ers i mi adael gofal. Maen nhw'n dweud y byddan nhw'n gwneud llawer, ond dydyn nhw ddim. Mae ganddyn nhw lawer o blant eraill mewn gofal i ofalu amdany'n nhw hefyd.

Ces i ychydig o sesiynau rheoli dicter, ond nid yw'n gweithio. Rwy wedi cyrraedd y pwynt nawr lle rwy wedi penderfynu fy mod i eisiau cael help a gallu bwrw bol. Dywedodd fy ngweithiwr cymdeithasol wrtha' i i fynd at fy meddyg teulu, felly rwy'n mynd i ofyn iddo os gallaf i gael therapi a chael rhywun i drafod pethau gyda nhw. Rwy erioed wedi cael cynnig hyn yn y gorffennol.

Yn y dyfodol, rwy'n credu byddwn i'n hoffi byw'n agos at fan hyn. Rwy'n adnabod y lle a'r bobl yno, gan gynnwys fy rheulu. Mae Susan yn byw yma hefyd, hi yw'r cyntaf ar fy rhestr. Dwi'm yn mynd i gymaint o drwbl pan fydda' i yma.



Taith ofal Shannon



Rhwyrstr rhag sefydlogrwydd – Byw’n annibynnol yn 16 a 17 oed

Mae symud ymlaen o ofal yn gynnar yn 16 a 17 oed yn cael ei gysylltu â phrofiadau gwael o ofal, gan gynnwys lleoliadau lluosog, sydd yn ei dro’n effeithio ar sefydlogrwydd mewn llety ar ôl gadael gofal. Gall hefyd ddigwydd am fod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn barod i symud ymlaen. Roedd bron i 40 y cant (11/28) o’r bobol ifanc y buom yn eu holi wedi gadael eu lleoliad gofal yn 16 neu 17 oed.

Roedd gofal wedi dod i ben i rai o’r bobl ifanc fwyaf agored i niwed pan oeddent yn iau, ar ôl i’r lleoliad chwalu ac yn aml cyn eu bod yn barod i symud ymlaen.²¹ Clywsom gan bobl ifanc a ddisgrifiodd ‘awydd cryf’ i adael lleoliadau maeth ond eu bod wedyn yn gorfod prifio’n rhy gyflym. Roedd cael eu hannibyniaeth yn bwysig iddynt, ond yn aml roedd realiti byw’n annibynnol yn sioc iddynt.


Roeddwn wedi cael digon erbyn pan oeddwn yn 16 oed. Doeddwn i ddim eisiau gorfod treulio mwy o amser mewn gofal. Mi ges i gynnig lleoliad mewn llety â chymorth gyda phobl ifanc eraill gan y gwasanaethau cymdeithasol, ond doeddwn i ddim eisiau hynny ychwaith. Roedd hynny’n gwneud i mi deimlo eu bod yn dal i geisio rheoli fy mywyd, ond doeddwn i ddim eisiau bod mewn lle felly.

(Person Ifanc)

Dywedodd nifer o bobl ifanc hefyd eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu ‘gwrthio allan’ a’u bod wedi cael eu gorfodi i adael eu lleoliadau pan

oeddent yn 16 ac 17 oed er nad oeddent yn teimlo eu bod yn barod i adael.

FFIGUR 6: Y LLETY NESAF YN 16+ OED FEL LLEOLIAD CYNTAF²² (2013/14)



Mae lleoliadau lluosog, mynd i ofal yn hŷn, gadael gofal mewn cartrefi preswyl, a bod yn annibynnol yn 16 a 17 oed i gyd yn ffactorau sy’n cynyddu’r tebygrwydd o ddigartrefedd a byw mewn cartref gwael.

Oherwydd y risg uwch o fyw mewn tai gwael a digartrefedd i’r bobl ifanc agored i niwed hyn, dylid rhoi mwy o sylw i’r ffaith mai hwy sydd leiaf tebygol o fod mewn gofal maeth sefydlog cyn cyrraedd 18 oed ac felly ni allant aros mewn lleoliadau gofal tan eu bod yn 21 oed. Maent hefyd yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg neu hyfforddiant ac felly nid ydynt yn elwa ar gymorth hyd at 25 oed. Efallai na fydd aros mewn gofal maeth yn opsiwn iddynt ond dylent gael yr hawl i aros neu ddychwelyd i ofal preswyl, neu gael cymorth i aros mewn mathau eraill o lety â chymorth nes eu bod yn 21 oed.

2. Dylai lles emosiynol fod yn fan cychwyn i ni. Hebddo, nid yw cymorth ymarferol yn ddigon i’r bobl ifanc fwyaf agored i niwed.

Rhwyrstr rhag sefydlogrwydd – Rhesymau pam y mae pobl ifanc yn dod i ofal

Roedd y teimladau a’r anawsterau y bu’r bobl ifanc yn sôn amdanynt yn aml yn gysylltiedig â’r rhesymau pam eu bod mewn gofal, gan gynnwys y profiad o esgeulustod difrifol a chamdriniaeth yn gynharach yn eu bywydau.

Roedd iechyd a lles emosiynol gwael yn fater a oedd yn dod i’r amlwg dro ar ôl tro pan oedd pobl ifanc yn disgrifio eu hamgylchiadau presennol. Roeddent yn disgrifio teimladau o fod yn ddiwerth, yn beio’u hunain ac ymdeimlad o anobaith gan ddweud bod iselder a phryder yn eu hatal rhag ymdopi â byw ar eu pen eu hunain. Roedd y teimladau hyn yn gysylltiedig â’r teimladau nad oeddent wedi cael dim neu fawr ddim addysg a phryderon na fyddent byth yn cael swydd.

Dywedodd pobl ifanc a oedd wedi cael help gan seicolegwyr a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) fod yr heriau a oedd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl yn deillio o’r trawma roeddent wedi’u brofi yn eu plentynod, gan gynnwys cam-drin rhywiol, trais domestig, esgeulustod a niwed corfforol.

Bu rhai pobl ifanc yn disgrifio sut yr oeddent yn ymdopi â theimladau anodd a phroblemau yn eu bywyd drwy hunan niweidio a cham-drin sylweddau. Soniodd eraill am orfod ymrafael â labeli negyddol a’r cywilydd sy’n gysylltiedig ag anawsterau ymddygiadol ac anabledd. Fel arfer, roedd pobl ifanc yn teimlo mai hwy eu hunain a’u rhieni oedd yn gyfrifol am y problemau hyn oherwydd eu hymddygiad drwg.

Gall mynd i ofal ag iechyd emosiynol a meddwl gwael ei gwneud yn anodd i blant setlo mewn gofal, sydd yn ei dro’n creu mwy o ansefydlogrwydd.²³ Gall symud yn aml a diffyg sicrwydd mewn gofal wedyn effeithio ar lefelau sefydlogrwydd ar ôl gadael gofal.

Rhwyrstr rhag sefydlogrwydd – Diffyg cydnabyddiaeth o anghenion emosiynol a chymhleth a chymorth parhaus

Canfuwyd fod teimladau anodd a chyferbyniol am y teulu a cholled yn parhau i gael effaith sylweddol ar bobl ifanc ar ôl iddynt symud ymlaen ar ôl bod mewn gofal.

Rwyf yn awr wedi cyrraedd y pwynt lle rwyf wedi penderfynu fy mod eisiau help a chael rhai pethau oddi ar fy meddwl. Dywedodd fy ngweithiwr cymdeithasol wrthyf am fynd i weld fy meddyg teulu, felly rwyf am ofyn iddo a allaf gael therapi a chael rhywun i drafod y pethau hyn â mi. Nid wyf wedi cael cynnig dim byd tebyg o’r blaen.

(Person ifanc)

Mae corff cynyddol o ymchwil ar ddatblygiad plant yn dangos bod amlygiad i straen dros amser, dioddef camdriniaeth neu esgeulustod yn gynnar neu yn yr arddegau yn gallu arwain at anawsterau tymor hir, gan gynnwys anawsterau â'r canlynol:

- Rheoli a rheoleiddio emosiynau
- Meddwl yn haniaethol a rhyngweithio cymdeithasol
- Ymdopi â sefyllfaoedd o straen a gwneud penderfyniadau
- Ymddygiad sy'n amlygu'r unigolyn i risg a deall yr hyn sy'n ddiogel²⁴

Yn aml bydd cymariaethau'n cael eu gwneud rhwng plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a chanlyniadau pobl ifanc eraill. Er hynny, mae effaith profiadau negyddol yn golygu'n aml nad yw plant mewn gofal yn cyrraedd yr un cam datblygiadol â'u cymheiriaid o'r un oed.

Roedd ymarferwyr hefyd yn cysylltu anableddau dysgu rhai pobl ifanc â ffactorau datblygiadol sydd wedi deillio o gamdriniaeth, oedi cyn mynd i ofal a symud i mewn ac allan o ofal, a oedd yn golygu nad oedd anghenion y bobl ifanc yn cael eu diwallu. Roeddent yn mynegi pryderon am fod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn cael eu gadael i fyw'n annibynnol mor ifanc ag 16 neu 17 oed pan oedd eu hoed datblygiadol mewn gwirionedd yn llawer iau.

Mae'n teimlo baich cywilydd ac euogrwydd am yr hyn sydd wedi digwydd iddo, Mae'n teimlo mai ef sydd ar fai a dywed ei fod yn wyllt ac nad oedd modd ei reoli. Fodd bynnag, dylai rhywbeth fod wedi cael ei wneud yn llawer cynharach.

(Ymarferydd)

Er bod ymddygiad lle mae mwy a mwy o risgiau'n cael eu cymryd yn gysylltiedig ag ymddygiad normal pobl ifanc yn eu harddegau, nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar brofiadau negyddol camdriniaeth ac esgeulustod. Mae rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal yn gallu ymddangos i'r byd allanol fel pe baent yn ddigon galluog i ymdopi, ond mewn gwirionedd mae ganddynt anghenion penodol nad ydynt yn aml yn cael eu cydnabod.

Roedd problemau fel biliau nwy heb eu talu a adawyd gan denantiaid blaenorol yn achosi rhwystrau annisgwyl. Roedd pobl ifanc yn gadael biliau nad oeddent yn eu deall heb eu talu yn y gobaith 'y byddai'r broblem yn diflannu'. Roeddent yn dweud nad oeddent yn gallu paratoi eu hunain yn feddylol ar gyfer gadael gofal ac roeddent yn teimlo bod gorfod ymdopi ar eu pen eu hunain yn frwydr.

Mae angen rhyw fath o ganllaw gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i gymorth a gofal i ofalu am y cartref. Er enghraifft, roedd fy mheiriant golchi'n gollwng a wyddwn i ddim pwy i'w ffonio na beth i'w wneud. Felly cefais fil am leithder. Dylai pobl ifanc mewn gofal gael y cymorth sydd ei angen cyn byw'n annibynnol.

(Person Ifanc)

Yr hyn a fyddai wedi fy helpu fi i reoli byw mewn llety fyddai cyngor ariannol mwy uniongyrchol. Am nad oeddwn i'n gwrando, roeddent yn gadael llonydd i mi. Byddai wedi helpu pe baent wedi gwneud mwy o ymdrech i fy nghael i gymryd diddordeb.

(Person Ifanc)

Roedd pobl ifanc ac ymarferwyr yn cytuno bod angen gwneud paratodau ar gyfer byw'n annibynnol cyn gadael gofal, ond roedd cymhlethdod anghenion pobl ifanc yn golygu nad oedd y disgwyliadau y byddant yn gallu ymdopi heb ofal tebyg neu lefel uchel yn barhaus yn realistig.

Nid oedd y disgwyliadau y gallai pobl ifanc â lefel uchel o anghenion emosiynol ac ymddygiadol weithredu fel 'oedolion' pan oeddent yn cyrraedd eu pen blwydd yn 18 oed yn realistig.

(Ymarferydd)

Roedd ar ddatganiad ac aeth i Ysgol Arbennig, felly un funud roedd yn cael ei weld fel plentyn sydd angen cymorth ychwanegol ac wedyn mae'n deffro ar ddiwrnod ei ben blwydd yn 18 oed ac mae disgwyl iddo berfformio a gweithredu fel oedolyn.

(Gofalwr Maeth)

Roedd problemau penodol yn codi pan oedd gan bobl ifanc anabledd neu broblem iechyd meddwl a oedd yn is na'r trothwy ar gyfer cymorth i oedolion. Roedd nifer o'r bobl ifanc hyn yn gorfod ymdopi heb y cymorth roeddent wedi'i gael cyn iddynt gyrraedd eu pen blwydd yn 18 oed. Roedd gwasanaethau arbenigol wedi diflannu o ganlyniad i drothwyon cymhwysedd uchel ar gyfer oedolion.

Roedd y person ifanc wedi cael ei atgyfeirio ddwywaith at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, a Thîm Anableddau Dysgu'r Awdurdod Lleol a'r Tîm Oedolion Agored i Niwed ond yn ôl eu hasesiad hwy nid oedd angen gwasanaeth arnynt. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n anodd i berson ifanc ymdopi ag ef.

(Ymarferwr)

Roedd cael cymorth gan wasanaethau gofal i oedolion yn anghyffredin i bobl ifanc anabl sy'n gadael gofal. Dywedodd gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ifanc ag anableddau dysgu a chorfforol fod 'bwloch enfawr' mewn opsiynau llety a fyddai'n eu galluogi i fyw'n annibynnol. Yn aml yr unig opsiwn i bobl ifanc ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed oedd aros â gofalwyr maeth a oedd yn cynnig gofal iddynt.

Galluogwyr sefydlogrwydd – Cymorth emosiynol ac iechyd meddwl, gofal therapiwtig a pharatoadau ymarferol

Er bod dulliau sy'n helpu pob person ifanc i gyflawni eu potensial ac i fod yn hunan ddibynnol yn bwysig, gwelsom fod pobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth yn wynebu heriau ychwanegol.

Nodwyd sgiliau ymarferol fel addurno, coginio a gofalu am arian i gyd fel meysydd cymorth pwysig gan bobl ifanc, ynghyd â delio â chymhlethdodau'r system dai. Roedd yn rhaid i bobl ifanc ddod o hyd i rywle i fyw heb help, a dywedwyd fod hynny'n anodd iawn iddynt.

Roedd pobl ifanc yn bendant bod angen cymorth arnynt mewn ffordd ymarferol. Siaradodd nifer ohonynt mewn ffordd bositif am yr help roeddent wedi'i gael â heriau byw o ddydd i ddydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwasanaethau gadael gofal yn canolbwyntio ar wella help i bobl ifanc yn y meysydd hyn.²⁵

Fodd bynnag, roedd pobl ifanc yn gwahaniaethu rhwng yr help roeddent yn ei gael gyda sgiliau ymarferol a symud i lety annibynnol a'r help roeddent yn ei gael i ymdopi â phrofiadau eu gorffennol a phroblemau iechyd meddwl fel pryder ac iselder.

Mi ges i help gyda sgiliau therapi fel y gallwn fyw bywyd bob dydd yn haws a hapusach. Mi ges help i gael trefn ar fy emosiynau drwy ddefnyddio ymwybyddiaeth ofalgar i ddelio â sefyllfaoedd a all godi.

(Person Ifanc)

Nodwyd fod y ddau'n bwysig, ond dywedodd pobl ifanc nad oedd wedi cael dim help therapiwtig i ymdopi â'u profiadau y byddai 'cael rhywun i siarad â hwy' yn rhywbeth a fyddai wedi helpu'n gynharach pan oeddent mewn gofal, yn ogystal ag yn awr.

Mae lleoliadau o safon uchel, sy'n rhoi pwyslais ar ymlyniad a datblygu cydnerthedd yn hanfodol i leihau effaith y profiadau negyddol a gawsant cyn mynd i ofal.²⁶ Mae angen rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod gofal yn rhoi pwyslais ar gynyddu ffactorau amddiffynnol, yn ogystal â rhoi sylfaen sefydlog, er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn cael profiadau mwy sefydlog mewn gofal, eu bod yn alluog i symud ymlaen o ofal a phrofi llai o ansefydlogrwydd pan fyddant yn byw'n annibynnol.

Rhwyrstr rhag sefydlogrwydd – Bylchau sylweddol mewn cymorth ataliol ac iechyd meddwl

Roedd ymarferwyr o'r farn bod cymorth cynnar i helpu i ymdopi â phrofiadau trawmatig ac anghenion ymddygiadol cymhleth yn hanfodol i lwyddiant mewn byw'n annibynnol yn ddiweddarach.

Un rhwyrstr pendant a chlr yw nad yw'r person ifanc wedi cael cyfle i ddysgu sgiliau byw'n annibynnol. Roedd y person ifanc cyn 18 oed yn arddangos ymddygiad heriol yn gyson tuag at ddarparwyr cymorth o ran dysgu a dosbarthu cyfrifoldeb wrth fynd yn annibynnol.

Nid yw'r person ifanc ôl-18 oed wedi ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaethau cymorth felly nid yw wedi cael y cyfle i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byw'n annibynnol yn llwyddiannus.

(Ymarferydd)

Awgrymodd ymarferwyr y dylid rhoi blaenoriaeth i'r bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i niwed i gael cymorth therapiwtig sy'n rhoi pwyslais ar reoleiddio a chydnerthedd, ac y gallai hyn helpu i atal pobl ifanc rhag dilyn llwybr o anrhefn a phrofiadau fel digartrefedd, cam-drin cyffuriau a throseddu.

Roeddent yn mynegi pryder bod adnoddau'n cael eu targedu'n bennaf tuag at y bobl ifanc hynny sydd eisoes yn costio fwyaf i awdurdod, yn hytrach na buddsoddi i atal yr heriau rhag dod i'r amlwg yn y lle cyntaf.

Dylent fod wedi ymyrryd mewn sefyllfaoedd penodol yn llawer cynharach ac wedi gwrando'n fwy astud. ... Dylwn fod wedi cael mwy o gymorth yn ystod pontio rhwng gwahanol leoliadau, ysgolion ac yn awr.

(Person Ifanc).

Er bod y rhan fwyaf o blant mewn gofal angen cymorth proffesiynol ar gyfer problemau iechyd meddwl, dros 70% o blant sy'n mynd i ofal yn ôl un astudiaeth, mae prinder cymorth cydlynus ar gyfer problemau iechyd meddwl.²⁷ Canfuwyd fod y ddarpariaeth i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn gofal preswyl yn arbennig o wael, a bod y math o gymorth sydd ei angen ar blant sy'n derbyn gofal i helpu â materion ymlyniad a datblygiad yn brin.²⁸

Gwasanaeth Ymyrraeth Aml-ddisgyblaeth Torfan (MIST) Gweithredu dros Blant - Action for Children

Gofal therapiwtig, effaith a chanlyniadau

Mae MIST yn darparu cymorth therapiwtig cyflawn i bobl ifanc 11-21 oed sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion cymhleth. Mae ganddynt i gyd brofiad o gamdriniaeth, lleoliadau sydd wedi chwalu ac maent yn aml yn arddangos ymddygiad lle maent yn cymryd risgiau mawr. Yn MIST mae pobl ifanc yn cael eu gweld yng ngoleuni eu profiadau o fywyd, eu cam datblygiadol a'u hamgylchiadau teuluol. Ochr yn ochr â'u teuluoedd maent yn cael help i ddatblygu ymddygiadau rhag-gymdeithasol, i fagu hunan barch, cydberthnasau hirhoedlog a deallusrwydd emosiynol. O ganlyniad i'w cysylltiad â MIST, mae pobl ifanc yn:

- Gwella eu lles emosiynol a chorfforol
- Yn arddangos llai o ymddygiadau a chydberthnasau sy'n niweidiol iddynt hwy ac i eraill
- Ymwneud mwy ag addysg ac yn setlo'n well mewn lleoliadau gofal maeth
- Yn fwy galluog i fagu eu plant eu hunain a thorri cylchoedd o fod mewn gofal sy'n pontio'r cenedlaethau.

Am bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth, mae'r gwerth cymdeithasol tebygol sy'n cael ei gynhyrchu yn £5.10, gan fod pobl ifanc yn gallu parhau mewn gofal maeth yn hytrach na bod mewn gofal preswyl costus y tu allan i'r ardal.²⁹

3. Mae ar bobl ifanc angen cydberthnasau hirhoedlog y gallant ymddiried ynddynt, i'w helpu i fyw'n annibynnol ac i neidio'n ôl pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Galluogwr sefydlogrwydd – Parhau cydberthnasau pwysig i helpu i ddatblygu cydnerthedd

Mae llety sefydlog wedi cael ei nodi fel cyfrwng sy'n helpu i sicrhau sefydlogrwydd, ond mae ein canfyddiadau ni'n dangos mai iechyd emosiynol da a chydnerthedd yw'r man cychwyn.³⁰ Mae ymarferwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd adeiladu cydnerthedd emosiynol a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i sefydlogrwydd mewn gofal ac i lwybrau llety sefydlog ar ôl gofal.

Gall ymddygiad sy'n arddangos risgiau gael ei ddwysau gan amlygiad i risgiau mewn llety anaddas fel hosteli ac mewn cymunedau anniogel. Gall perthynas barhaus a chefnogol â gweithwyr proffesiynol a gofalwyr fod yn ffactor amddiffynnol a gall helpu i hybu cydnerthedd.³¹ Fodd bynnag, nid oes defnydd digonol yn cael ei wneud ddylanwad amddiffynnol gydberthnasau pwysig, gan gynnwys cymdogion, ffrindiau ac aelodau eraill yn y gymuned.³²

Rydym wedi canfod bod mynediad hyblyg at oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i alluogi pobl ifanc i reoli heriau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cadw eu hunain yn ddiogel a rheoli sefyllfaoedd a phobl beryglus yr oeddent yn debygol o ddod ar eu traws.

Rhwystyr – Diffyg dilyniant a chydberthnasau wedi chwalu

Roedd rhai sy'n gadael gofal yn dymuno cael cysylltiad mwy hyblyg ag oedolyn y gallant ymddiried ynddo, yn enwedig yn ystod min nos ac ar benwythnosau, i helpu i'w tawelu a thrafod heriau penodol. Roeddent yn disgrifio manteision cael mentor neu Ymwelydd Annibynnol, fel rhywun y gallant ymddiried ynddo ac a oedd yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Cafodd rhai cynlluniau sy'n darparu cysylltiad parhaus rhwng Ymwelwyr Annibynnol a rhai sy'n gadael gofal eu cynnig gan rai ymarferwyr fel ffordd dda o sicrhau dilyniant a chydberthnasau amddiffynnol hanfodol.

Yr hyn sydd ei angen yw mentor gyda'r nod o helpu rhai sy'n gadael gofal pan fyddant yn dysgu sgiliau byw'n annibynnol e.e. coginio, help i ddefnyddio offer yn y cartref, rheoli cyllideb, a chael trefn ar fudd-daliadau. Rydym angen rhywun y gallwn ei ffonio a gofyn unrhyw gwestiynau a phethau rydym angen help â hwy – heb deimlo ein bod yn faich ar neb na phoeni bod ein cwestiynau'n amherthnasol.

(Person Ifanc)

Mae angen rhywun fel mentor arno a all dreulio amser ag ef.

(Gofalwr maeth)

Soniodd rhai sy'n gadael gofal am ddull popeth neu ddim – roeddent un ai mewn cysylltiad â'u Cynghorydd Personol neu nid oedd dim cysylltiad o gwbl. I rai o'r bobl ifanc fwyaf ymylol ac agored i niwed, roedd perthynas y gallant ymddiried ynddi â gweithwyr a gofalwyr mewn gofal preswyl a maeth yn eithriadol o bwysig.

Roedd rhai pobl ifanc yn colli cysylltiad â gwasanaethau am gyfnodau hir, roedd eu hanghenion yn newid yn ddyddiol neu wythnosol, ond roeddent yn dychwelyd at y gwasanaeth pan oedd angen help arnynt neu os oeddent yn ddigartref. Nid oedd yn rhaid iddynt o reidrwydd gael cysylltiad ag unigolion yn y lleoliadau hyn, ond roeddent yn dal i edrych ar y gwasanaethau fel ffynhonnell cymorth. Weithiau, roedd cysylltiad yn cael ei ailsefydlu gan fod gweithwyr yn gwneud ymdrechion arbennig i gadw mewn cysylltiad, hyd yn oed os nad oeddent yn gweld y person ifanc, er enghraifft, drwy ysgrifennu i sawl cyfeiriad neu ymweld ag aelodau'r teulu.

Nododd ymarferwyr bwysigrwydd cydnabod yr heriau o gadw mewn cysylltiad â'r bobl fwyaf agored i niwed a oedd wedi gadael gofal. Oherwydd bod eu bywydau'n gallu bod mor ansefydlog a'i bod mor anodd rhagweld y datblygiadau yn eu bywydau roedd hyblygrwydd a hygyrchedd yn allweddol. Mewn un gwasanaeth, roedd cyn breswylwyr yn cael eu gwahodd i ginio Nadolig, ac roedd hynny'n gyfle i bobl ifanc

ddychwelyd ac i gael cyngor a chymorth os oedd angen.

Mae rhoi sylw i iechyd meddwl, cam-drin sylweddau a heriau ymddygiadol yn hanfodol i alluogi'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed i aros mewn gofal. Rhaid i'r cynllun Pan Fyddda i'n Barod, a fydd yn cael ei roi ar waith ledled Cymru ddechrau 2016, ystyried sut y gellir cynnal lleoliadau os telir am drefniadau drwy system fudd-daliadau sy'n cosbi'r bobl ifanc fwyaf cythryblus.

Nid yw'n mynd i'w apwyntiadau ac [oherwydd cosbau] nid yw'n cael yr arian y dylai ei roi i ni am ei fwyd a'i rent.

(Gofalwr Maeth)

Mynegwyd pryderon na fydd y bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn gofal yn elwa ar y cynllun Pan Fyddda i'n Barod, gan beryglu parhad cydberthnasau da â gofalwyr maeth. Rhaid ystyried yr anawsterau ychwanegol i ofalwr wrth geisio cynnal lleoliadau ar gyfer y bobl ifanc fwyaf agored i niwed, yn ogystal â'r goblygiadau cost i awdurdodau lleol sy'n darparu cymorth ychwanegol, yn nyluniad terfynol y cynllun.

Mae perygl cydberthnasau sy'n dod i ben neu sy'n chwalu yn y system ofal yn ddigon hysbys.³³ Rhaid rhoi mwy o sylw i weld a fydd trefniadau Pan Fyddda i'n Barod yn ddigonol i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed. Mae'n hanfodol sicrhau na fydd y trefniadau'n rhoi'r sawl sy'n gadael gofal o dan fwy o anfantais ac yn tanseilio'r amcan i gynnig sefydlogrwydd nes eu bod yn 21 oed.

Galluogwr – Cydberthnasau positif â'r teulu a chymheiriaid

Er nad oedd gan lawer o'r bobl ifanc yn yr ymchwil ddim neu fawr ddim cysylltiad â'u teuluoedd biolegol, roedd aelodau'r teulu estynedig, ffrindiau, partneriaid a chael plant eu hunain yn amlwg iawn pan oedd pobl ifanc yn siarad am yr hyn oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel a hapus.

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod pobl sy'n bwysig yn eu bywydau wedi cael eu hanwybyddu a bod cael eu symud i ffwrdd oddi wrth ffrindiau a chysylltiadau'n ei gwneud yn anos i ymdopi mewn llety annibynnol.

Y pethau sy'n bwysig yw cael to uwch fy mhen yn hytrach na bod ar y stryd, fy nghariad a'i deulu sy'n fy helpu, fy nghi a chael digon o arian i fyw, ac nid i oroesi'n unig.

(Person Ifanc)

Roedd aros yn agos at ble'r oedd y person ifanc wedi cael ei leoli'n flaenorol yn hanfodol i siawns y person ifanc o lwyddo pan oedd yn symud ymlaen i fod yn annibynnol.

(Ymarferydd)

Roedd traean y bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil hwn yn rhieni ifanc hefyd. Roedd bod yn fam neu dad fel petai'n rhoi ymdeimlad o bwrpas a sicrwydd iddynt. Roeddent yn fwy tebygol o deimlo eu bod wedi cymryd cam positif yn eu bywyd. Mae siawns y gallai pobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac sy'n cael teulu eu hunain gael cymorth gan wasanaeth cymorth i deuluoedd

4. Gall dychwelyd adref neu gadw cysylltiad â theulu biolegol fod yn gymhleth.

Mae plant a phobl ifanc sy'n cyrraedd gofal yn dal yn rhan o deulu, hyd yn oed os nad ydynt yn eu gweld nac yn byw gartref. Pa mor anodd a chymhleth bynnag ydyw, mae ymlyniad at gydberthnasau teulu ac, i lawer, mae cysylltiadau sy'n parhau ag aelodau'r teulu'n bwysig ac yn anochel.

Mae ansefydlogrwydd llety'n gysylltiedig â phan fydd bobl ifanc yn mynd yn ôl adref i fyw â'r teulu, gan gynnwys ar ôl cael eu symud o lety â chymorth neu pan fo tenantiaethau wedi chwalu.³⁴

Nid yw data Cymru'n rhoi darlun clir i ni o nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n dychwelyd adref ar ryw adeg ar ôl gadael gofal. Yn Lloegr, byw â rhieni neu berthnasau yw'r ail gyrchfan llety uchaf i rai sy'n gadael gofal yn 19 oed.³⁵ Rydym wedi gweld pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd cyfnod pontio maent yn fwy tebygol o gymryd mwy o reolaeth dros eu bywyd, gan benderfynu dychwelyd adref neu ymweld â'r teulu ar ryw adeg ar ôl gadael gofal heb gymorth gweithwyr cymdeithasol neu wasanaethau gadael gofal.

Mae'n bwysig nodi mai'r bobl ifanc y buom ni'n siarad â hwy a oedd wedi dychwelyd adref oedd y bobl ifanc hynny hefyd a oedd fwyaf tebygol o fod mewn cysylltiad â'u teulu am eu bod wedi mynd i ofal yn ystod eu harddegau.

Clywsom sawl adroddiad am bobl ifanc yn penderfynu dychwelyd adref heb unrhyw asesiad na her a lle nad oedd llawer yn hysbys am eu teulu biolegol. Er hynny, mae ymchwil wedi dangos bod bron hanner y rhai sy'n mynd i ofal oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod wedi cael eu cam-drin eto os ydynt yn dychwelyd adref. Mae traean y rhai sy'n aros gartref yn parhau i gael gofal o safon isel, gan gynnwys achosion a gadarnhawyd o gamdriniaeth ac esgeulustod.³⁶

Bu'r bobl ifanc y buom ni'n siarad â hwy'n disgrifio perthynas yn chwalu a chael eu 'cicio allan' yn fuan ar ôl dychwelyd adref, gan arwain at ddigartrefedd.

Mewn un achos, cysylltodd ei dad ag un person ifanc 16 oed drwy gyfryngau cymdeithasol ac yn fuan wedyn gadawodd y person ifanc ofal a mynd i fyw ato. Nid oedd wedi bod mewn cysylltiad â'i dad am y rhan fwyaf o'i oes. Caniatawyd iddo wneud hyn gan y gwasanaethau cymdeithasol, ond ni chynhaliwyd asesiad o amgylchiadau'r dyn. Chwalodd y trefniant hwn yn fuan iawn ac wedyn roedd y dyn ifanc yn ddigartref.

Soniodd ymarferydd o Wasanaeth Gadael Gofal am y ffactorau gwrthio-tynnu ac effaith hynny ar bobl ifanc, gan ddisgrifio sefyllfa lle:

Mae'r person ifanc yn cadw mewn cysylltiad â'u teulu'n annibynnol; mae hon yn ffynhonnell enfawr o gymorth iddynt hwy. Fodd bynnag, gallaf weld yr ochr negyddol pan mae'r person ifanc yn colli cyfarfodydd pwysig sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n delio ag argyfyngau er mwyn treulio amser â'r teulu. Gall fod yn anodd trafod pwysigrwydd cydbwysedd ym mywyd y person ifanc.

(Ymarferydd)

Er y gall y bobl ifanc eu hunain wneud y penderfyniad i ddychwelyd adref, mae'r risgiau hysbys am eu hamgylchiadau teuluol yn cryfhau'r ddadl dros gynllunio gofalus a pharhaus i ddarparu cymorth. Mae asesiad o ansawdd uchel yn hanfodol i ganfod dylanwadau negyddol ac ymddygiad sy'n tarfu ar ran y teulu biolegol, yn ogystal â chanfod cydberthnasau a rhwydweithiau positif. Mae hefyd yn allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael lleoliad gofal priodol. Os yw pobl ifanc yn teimlo'n gartrefol a diogel mewn gofal, yna maent yn llai tebygol o "bleidleisio â'u traed" a dewis gadael gofal.

Mae dadl gref dros annog asiantaethau i gydweithio i integreiddio cymorth a gweithredu fel cyfryngwyr rhwng pobl ifanc a'u teuluoedd i atal digartrefedd.³⁷ Nodwyd buddsoddi mewn dulliau ymyrryd cynnar yn achos y bobl ifanc fwyaf agored i niwed fel nodwedd sylfaenol o lety positif a llwybrau cymorth i leihau risg o ganlyniadau llety gwael.³⁸

Rheoli cydberthnasau: Yr hyn sy'n helpu

Mae gwasanaethau Maethu Dwys Gweithredu dros Blant - Action for Children yn darparu cymorth, fel sesiynau therapi teulu i helpu pobl ifanc i ddeall y cydberthnasau oedd ganddynt â'u teulu, sut i reoleiddio eu teimladau a chadw'u hunain yn ddiogel yn emosiynol. Mae pobl ifanc yn cael help i adnabod a deall cydberthnasau iach ac i'r gwrthwyneb â'u teulu biolegol. O ganlyniad, roedd pobl ifanc mewn gwell sefyllfa i adeiladu cydnerthedd, hunan barch a hunan effeithiolrwydd.

Mae gwasanaethau cymorth dwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn dangos buddiannau gweithio â phobl ifanc ochr yn ochr â'u teuluoedd i gael uniadau llwyddiannus ar ôl gofal. Fodd bynnag, ni chanfuwyd llawer o dystiolaeth sy'n dangos bod cymorth yn cael ei gynnig i rai sy'n gadael gofal na'u teuluoedd pan oeddent yn dychwelyd adref, nac i gynllunio i ystyried y risgiau neu'r effeithiau ar y bobl ifanc neu eu teuluoedd.

5. Mae peth cyfrifoldeb ar bob rhan o'r wladwriaeth a'i gwasanaethau i ymddwyn fel rhiant corfforaethol da. Yn rhy aml, nid yw gwasanaethau'n cael eu dylunio'n benodol ar gyfer pobl ifanc agored i niwed sy'n gadael gofal ac mae hynny'n creu rhagor o ansefydlogrwydd.

Roedd rhai pobl ifanc yn profi anawsterau pan derfynwyd eu tenantiaeth am eu bod wedi torri rheolau'r denantiaeth. I rai, y bobl ifanc fwyaf agored i niwed, roedd colli eu llety'n arwain yn gyflym at batrwm o droi allan, dyledion cynyddol ac effeithiau cysylltiedig hynny ar y tebygrwydd o allu byw mewn llety sefydlog.

Roedd gan y gwasanaethau llety â chymorth reolau sylfaenol pendant ar gyfer pobl ifanc ond roeddent yn pwysleisio'r angen am 'gyfleoedd diddiwedd' i'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal, a oedd yn ymgodymu ag anghenion dysgu a nam gwybyddol o ganlyniad i hanes hir o esgeulustod a chamdriniaeth.

Roedd yr her o reoli tenantiaethau, a'r ansefydlogrwydd a allai ddeillio o hynny i rai pobl ifanc agored i niwed yn cael ei dwysau gan leoliad gwael a'r diffyg dewis o lety, yn ganfyddiad cyffredin mewn astudiaethau eraill.³⁹ Roedd y llety'n aml ar y cyrion ac mewn cymunedau tlodaidd. Roedd rhai a oedd yn gadael gofal yn

canfod eu hunain mewn amgylcheddau peryglus. Os oedd pobl ifanc yn gwrthod byw mewn llety anniogel, roeddent yn colli eu lle ar y rhestr dai.

Mae gen i ferch ddwyflwydd oed ond cefais fy rhoi yn y fflat o dan werthwr cyffuriau. Roedd cael llais yn lleoliad fy llety'n bwysig. Dywedwyd wrtha i fod yn rhaid i mi gymryd y fflat a gynigiwyd i mi neu gael fy symud i lawr y rhestr dai.

(Person ifanc)

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng gwasanaethau gadael gofal a thai, yn ogystal â'r risg bod polisïau tai a lles yn gallu cael canlyniadau anfwriadol i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal. Mae'n amlwg bod yn rhaid i gyfrifoldeb am ddiogelwch a lles pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal gael ei rannu gan bob asiantaeth ac adrannau'r llywodraeth.

Casgliadau ac argymhellion

Nod y polisi fframwaith sy'n ymwneud â phlant mewn gofal yw eu gwarchod, ond mae hefyd yn diffinio lle plant yn y system mewn ffyrdd nad yw'n adlewyrchu realiti bywydau plant a phobl ifanc. Nid yw hawliadau pobl ifanc sy'n gadael gofal yn seiliedig ar eu hanghenion, ond ar eu hoedran, a'u statws addysgol a chyflogaeth. Yn achos y bobl ifanc fwyaf agored i niwed mae'n hanfodol bod asiantaethau'n cydweithio'n well i gynllunio ac i ddarparu cymorth pan fydd angen.

Mae effaith profiadau trawmatig fel esgeulustod difrifol a theuluoedd yn chwalu'n hirhoedlog. Nid yw bywyd pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn hawdd ac nid oes modd ei ragweld. Maent yn awyddus i wneud yn dda ac mae llawer yn mynd ymlaen i gyflawni eu potensial. Ond mae rheoli annibyniaeth yn her. Gall cydberthnasau fod yn gymhleth a pheryglus a dyna pam, fel yn achos pobl ifanc i gyd, y mae'r gallu i ddysgu drwy gamgymeriadau mor bwysig.

Nid yw'r angen am gymorth yn diflannu dros nos, ond mae gadael gofal yn cyflymu'r broses hon ac,

i rai, bydd cymorth yn diflannu'r sydyn. Mae hyn yn arbennig o anodd i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed, y rhai sydd wedi dioddef y profiadau mwyaf trawmatig, sydd wedi bod mewn gofal am gyfnod byr neu sydd wedi profi llawer o ansefydlogrwydd. Mae angen rhywbeth ar bob un y gallant droi ato am gymorth.

Dylai'r systemau gofal a gadael gofal adlewyrchu profiadau gwirioneddol ac anghenion plant a phobl ifanc – y rhai a roddwyd mewn gofal am fod angen eu gwarchod. Mae llawer o wasanaethau gadael gofal yn gwneud gwaith da, ond rydym wedi gweld pwyslais gormodol ar brosesau ac ystyriaethau ymarferol, yn hytrach na phwyslais ar roi sylw i'r rhesymau pam y mae pobl ifanc wedi mynd i ofal yn y lle cyntaf.

Nid yw'r system yn rhoi sylw nac yn ymateb i iechyd emosiynol a meddyliol gwael, cydberthnasau arwyddocaol, cysylltiadau â'r teulu, ac anghenion ymddygiadau cymhleth. Mae'r methiant hwn yn golygu ei bod yn fwy o her fyth i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n ceisio bod

yn annibynnol, ond mae mewn gwirionedd yn ei gwneud yn haws iddynt fethu.

Nid yw'r dull presennol yn effeithiol ac nid yw'r goblygiadau cost yn gynaliadwy.

Ar ôl cydnabod bod pobl ifanc yn cael eu gorfodi i fyw'n annibynnol yn rhy ifanc aethpwyd ati i gyflwyno'r cynllun Pan Fyddda i'n Barod, sy'n caniatáu i bobl ifanc barhau mewn gofal maeth nes eu bod yn 21 oed. Ond y bobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth yw'r rhai sydd leiaf tebygol o elwa ar y cyfle hwn.

Nid yw rhieni da'n cefnu ar eu plant pan fyddant ar eu mwyaf heriol neu pan fydd bywyd yn anodd iddynt. Rhaid i ni sicrhau bod y rhiant corfforaethol hefyd yn ddigon hyblyg ar gyfer y bobl ifanc fwyaf agored i niwed neu mi fyddant ar eu colled.

Rhaid i brosesau gadael gofal a oedd yn canolbwyntio ar wella sgiliau ymarferol pobl ifanc i fyw'n annibynnol fynd law yn llaw â dulliau sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau emosiynol a chydnerthedd, a rhoi blaenoriaeth i anghenion therapiwtig sydd angen cymorth. Mae ein hymchwil yn ategu'r achos dros ailfeddwl modelau gofal ac ymestyn model mwy hyblyg i oedolaeth ifanc, yn enwedig yn achos y bobl ifanc fwyaf agored i niwed.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnig ychwanegu'n ddiangen at y fframwaith gadael gofal, sydd eisoes yn gymhleth ac yn anodd ei weithredu. Yn hytrach....mae angen ailfeddwl.

Mae Gweithredu dros Blant - Action for Children yn galw am weithredu yn y meysydd canlynol.

1. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl y rhiant corfforaethol ym mywydau plant a phobl ifanc. Dylai hyn gynnwys eu siwrnai cyn, yn ystod ac ar ôl gofal. Dylai'r canlyniad fod yn fframwaith sengl sy'n canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc.

2. Rhaid i'r rhiant corfforaethol da roi blaenoriaeth i iechyd emosiynol a meddyliol y plant sydd yn ei ofal.

- Rhaid i Gyfarwyddiaeth Iechyd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol dderbyn mwy o gyfrifoldeb am eu rôl mewn rhianta corfforaethol drwy ymateb i anghenion plant mewn gofal a'r rhai sydd wedi gadael gofal.
- Rhaid i wasanaethau gofal i oedolion, gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, gwasanaethau gadael gofal, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) weithio â'i gilydd i gynllunio'n gynnar ac i warantu bod mynediad at wasanaethau'n parhau ar ôl 18 oed.
- Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu lleoliadau therapiwtig i'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n datblygu lles emosiynol, sy'n rhoi sylw i drawma seicolegol, ac yn eu helpu i ddatblygu cydberthnasau cydnerth a phositif.

3. Rhaid i'r rhiant corfforaethol da edrych ar ôl y plentyn cyfan a'u cadw'n ddiogel bob amser, gan gynnwys pan fydd pobl ifanc yn dychwelyd adref.

- Rhaid i awdurdodau lleol wella trefniadau cynllunio ac asesu cynnar, cynnwys aelodau'r teulu pan fydd hynny'n briodol, i baratoi pobl ifanc 16+ oed i ddychwelyd adref a sicrhau bod penderfyniadau'n briodol a'u bod yn cael eu cefnogi; a
 - Defnyddio Cynadledda Grŵp Teuluoedd a chyfryngu i ategu'r broses hon pan fydd person ifanc yn debygol o fod mewn cysylltiad rheolaidd ag aelodau'r teulu neu'n dychwelyd adref ar ôl gofal.
 - Dylai Llywodraeth Cymru ddiogelu statws gadael gofal pobl ifanc sy'n dychwelyd adref yn 16 oed neu hŷn i'w galluogi i ddychwelyd i'r system nes byddant yn 21 oed os yw'r trefniadau â'r teulu'n chwalu.
 - Dylai Llywodraeth Cymru roi hawliad cryfach i bobl ifanc a'u teuluoedd i gael cymorth pan fyddant yn dychwelyd adref o ofal a dylent fod yn ymwybodol o'r hawliad hwn bob amser.
- 4. Ni ddylai'r rhiant corfforaethol da roi'r ffidil yn y to pan fydd bywydau pobl ifanc ar eu mwyaf cymhleth a heriol.**
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno hawliad sy'n galluogi pobl ifanc i aros mewn gofal preswyl nes byddant yn 21 oed.

- Dylai llywodraeth ganolog a lleol roi blaenoriaeth i sicrhau trefniadau llety hyblyg, gyda chymorth i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed nad ydynt mewn gofal maeth.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd trefniadau Pan Fyddda i'n Barod yn diwallu anghenion y bobl ifanc fwyaf agored i niwed a sicrhau bod lleoliadau'n cael eu hariannu a'u cefnogi.

Atodiad 1

Y bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil.

Ystod Oedran	17- 25 oed
Nifer wedi Gadael Gofal	28
Nifer y bobl ifanc ar ymyl gofal	3
Cymru	13
Lloegr	18
Gwryw	14
Benyw	17
Rhieni Ifanc	9
Anabledd dysgu / cyflwr iechyd sylweddol	6
Hanes troseddol sylweddol (e.e. dedfryd o garchar neu ofal yn lle caethiwed)	5
Cam-drin sylweddau'n sylweddol ar y pryd	4
Person ifanc neu ffoadur ar ei ben ei hun / materion lloches	3
Problemau iechyd meddwl sylweddol	10
Wedi profi digartrefedd a / neu wedi'u lleoli mewn llety Gwely a Brecwast	11
Wedi Gadael Gofal yn Gynnar (16/17)	9

Ôl-nodiadau

1. Arolwg One Poll o gyhoedd y DU 2014. Sylfaen = 2500.
2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) Young adults living with parents, Ionawr 2014. Cyrchwyd Medi 2014 yn <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/family-demography/young-adults-living-with-parents/2013/sty-young-adults.html>
3. ONS (2010) Social Trends in Hannon, C., Wood, C. & Bazalgaette, L. (2010) *In Loco Parentis*. London: Demos
4. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 108
5. Deddf Tai 1986, Adran 189. Cyrchwyd Medi 2014 yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/52/section/189>
6. Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001. Cyrchwyd Medi 2014 yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/607/article/3/made>
7. Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer i Rannau 2 a 3 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 5.7
8. Llywodraeth Cymru, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2012 – 16, 2012
9. Y Pwyllgor Pobl Ifanc ac Addysg, Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Cyrchwyd Medi 2014 yn <http://www.senedd.assemblywales.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=8676>
10. Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, *Datganiad ar Lesiant a Dull o Wella Gwasanaethau Cymdeithasol 2013-14 ac Ymlaen*, 16 Ebrill 2013. Cyrchwyd Medi 2014 yn <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/wellbeing/?lang=en>
11. Stein, M. and Morris, M. (2010) *Increasing the Numbers of Care Leavers in 'Settled, Safe' Accommodation*. *Vulnerable Children Knowledge Review* 3. London: C4EO
12. Dixon, J. and Stein, M. (2005) *Leaving care, Through Care and Aftercare in Scotland*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.
13. Stein, M. and Morris, M. (2010). *Increasing the Numbers of Care Leavers in 'Settled, Safe' Accommodation*. *Vulnerable Children Knowledge Review* 3. London: C4EO
14. Wade, J. and Dixon, J. (2006) 'Making a home, finding a job: investigating early housing and employment outcomes for young people leaving care'. *Child and Family Social Work*, 11(3), 199-208
15. Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. and Watts, B. (2013) *Homelessness monitor: Wales 2012, Institute for Housing, Urban and Real Estate Research*, Heriot-Watt University and Centre for Housing Policy, University of York
16. Ystadegau Cymru (2014) *Adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities, Wales, 2013-14* (Datganiad Ystadegol Cyntaf 24/09/2014). Caerdydd: Llywodraeth Cymru
17. Llywodraeth Cymru (2012) *'Pan Fydda i'n Barod' dogfen ymgynghori*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
18. The Centre for Social Justice (2014) *Survival of the Fittest? Improving life chances for care leavers*. Llundain: The Centre for Social Justice
19. The Centre for Social Justice (2014) *Survival of the Fittest? Improving life chances for care*

- leavers. Llundain: The Centre for Social Justice
20. Department for Education (2013) *Data Pack: Improving permanence for looked after children*. London: Department for Education
21. Dixon, J. and Stein, M. (2005). *Leaving care, Through Care and Aftercare in Scotland*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers
22. Ystadegau Cymru (2014) *Adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities, Wales, 2013-14* (Datganiad Ystadegol Cyntaf 24/09/2014). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
23. Hannon, C., Wood, C., Balzalgette, L. (2010) *In Loco Parentis*. London: Demos
24. Bowyer, S. and Wilkinson, J. (2013) *Evidence scope: models of adolescent care provision*. London: Research in Practice
25. Stein, M. and Morris, M. (2010). *Increasing the Numbers of Care Leavers in 'Settled, Safe' Accommodation*. Vulnerable Children Knowledge Review 3. London: C4EO
26. Stein, M. (2008) 'Resilience and Young People Leaving Care'. *Child Care in Practice* 14, 1, 35-44
27. Sempik, J, Ward, H and Darker, I. (2008) 'Emotional and behavioral difficulties of children and young people at entry to care', *Clinical Child Psychology and Psychiatry* 13. no 2. 22-33
28. Hannon, C, Wood, C, Balzalgette, L. (2010) *In Loco Parentis*. London: Demos.
29. Street, E (2008) *Moving into Maturity: An evaluative review of the Action for Children MIST programme*. London: Action for Children
30. Hannon, C, Wood, C, Balzalgette, L. (2010) *In Loco Parentis*. London: Demos
31. Action for Children and York Consulting (2014) *Keeping Myself Safe: Practitioner's toolkit for developing effective relationships with vulnerable young people*. London: Action for Children
32. Research in Practice (2006) *Resilience. Development Groups (2006) for the Wales College*. Totnes: Research in Practice
33. The Care Inquiry (2013) *Making not Breaking. Building relationships for our most vulnerable children*. London: The Care Inquiry
34. Dixon, J. and Stein, M. (2005) *Leaving care, Through Care and Aftercare in Scotland*. London: Jessica Kingsley Publishers
35. Department for Education. (2013) *Children Looked After by Local Authorities in England, as at 31 March 2013* (Statistical First Release 11/12/2013). London: Department of Education
36. NSPCC (2012) *Returning home from care: What's best for children*. London: NSPCC
37. Homeless Link (2013) *No Excuses, Preventing Homelessness for the next generation*. London: Homeless Link
38. Whalen, A. (2012) *Developing positive accommodation and support pathways: Minimising the risk of youth homelessness and supporting successful transitions for young people*
39. Barnardo's (2014) *On my own: the accommodation needs of young people leaving care*. Barkingside: Barnardo's

Action for Children - Gweithredu dros Blant

Llys Dewi Sant
68a Heol y Bontfaen
Caerdydd
CF11 9DN

Ffôn: **029 2022 2127**

Mae Action for Children – Gweithredu dros Blant yn cefnogi ac yn amddiffyn plant a phobl ifanc agored i niwed wrth iddyn nhw dyfu i fyny. Rydyn ni'n gwneud eu bywydau yn well: heddiw, yfory a phob diwrnod.

Mae pob plentyn a welir wedi cael cymorth gan Action for Children – Gweithredu dros Blant.

actionforchildren.org.uk

 **actnforchildren**

 **actionforchildren**

 **actionforchildrenUK**